YOUTH OFFENDING TEAM Inspection

Datganiad i'r Wasg

Ffôn: Ymholiadau'r Cyfryngau: 020 7210 8643
Arolygiaeth Prawf EM • Ail Lawr • Ashley House • 2 Monck Street • Llundain • SW1P 2BQ
Ffôn: 020 7035 2202 • Ffacs: 020 7035 2237 •
E-bost: HMIP.enquiries@homeoffice.gsi.gov.uk • http://inspectorates.justice.gov.uk/hmiprobation/

Arolygiad annibynnol o waith prawf a throseddwyr ifainc

EMBARGO TAN 06/08/08
CYHOEDDI ADRODDIAD AROLYGU
GWASANAETH CYFIAWNDER IEUENCTID GWYNEDD A MÔN

Heddiw, cyhoeddwyd yr adroddiad diweddaraf o bedwerydd cam yr arolygiadau o Dimau Troseddwyr Ifainc (TTI) yng Nghymru a Lloegr. Cynhaliodd tîm arolygu amlasiantaethol yr arolygiad o Wasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (GCI) Gwynedd a Môn.

Dywedodd Andrew Bridges, Prif Arolygydd Prawf EM:

Arolygwyd GCI Gwynedd a Môn ym mis Mawrth a mis Ebrill 2008, yn ystod pedwerydd cam ein rhaglen arolygu TTI.
Gwelsom yma GCI a oedd yn gwneud cynnydd cadarnhaol, gyda Bwrdd Rheoli a thîm staff a oedd yn cynnig arweiniad a chyfeiriad. Ym mis Tachwedd 2007, ailstrwythurwyd y GCI a sefydlwyd Grŵp Rheoli Gweithredol newydd y GCI. Roedd archwiliadau wedi'u cynnal i'r gwasanaeth, cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella wedi'u cyflwyno, a'r cynnydd wedi'i fonitro gan y Bwrdd Rheoli.
Roedd y GCI wedi bod yn destun pryder yn 2005, ond roedd camau wedi'u cymryd gan arwain at gynnydd sylweddol. Roedd yno dîm staff ymroddedig a sawl enghraifft o waith arloesol ac adeiladol ym mhob maes. Ein hasesiad cyffredinol ar gyfer GCI Gwynedd a Môn oedd ei fod yn ymdrechu i weithio'n unol â'r safonau cenedlaethol, ei fod yn llwyr ymwybodol o'i gryfderau ac o'i wendidau a bod y rhagolygon yn dda ar gyfer ei ddatblygu yn y dyfodol.

Prif ganfyddiadau'r adroddiad yw:

Gwaith yn y llysoedd

- Roedd gan ynadon y llys ieuenctid, staff Gwasanaeth Erlyn y Goron a swyddogion y llysoedd ffydd yn y gwasanaethau cymorth a goruchwylio a ddarperid gan y GCI.
- Roedd adroddiadau cyn-dedfrydu yn gyffredinol o safon dda. Roedd ffurflen monitro ansawdd yn dod gyda phob adroddiad cyn-dedfrydu i'r ynadon ei llenwi.

Gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned

- Roedd gan y GCI Banel Cefnogi Cynhwysiant Ieuenctid, gyda thri phanel aml-ddisgyblaeth ym maes atal yn gwasanaethu'r ardal. Roedd yr asesiadau'n defnyddio

amrywiaeth o ffynonellau, roedd hil ac ethnigrwydd yn cael eu cofnodi'n glir ac ystyriaethau ynglŷn ag amrywiaeth yn cael eu nodi, eu hasesu ac yn cael sylw ym mwyafrif yr achosion.

- Rhoddid sylw llawn i'r dulliau a fyddai fwyaf tebygol o fod yn effeithiol gyda phlentyn neu berson ifanc penodol. Aseswyd yn gywir y Risg o Niwed i eraill a diogelu'r plentyn neu'r person ifanc, a chwblhawyd cynllun ymyrryd yn brydlon ym mwyafrif yr achosion.
- Roedd amrywiaeth o weithgareddau diddorol a heriol ar gael i dywys plant a phobl ifanc oddi wrth ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu.
- Gwelodd yr arolygwyr nad oedd anghenion cyflogaeth, hyfforddiant ac addysg plant neu bobl ifanc yn cael eu nodi a'u rhannu'n ddigon buan yn ystod eu gyrfa ysgol, er mwyn lleihau'r risg o droseddu a'u galluogi i gyflawni eu potensial.
- Ym mwyafrif yr achosion, hwyluswyd ymwneud gweithredol rhieni/gofalwyr yng ngoruchwyliaeth eu plentyn neu'r person ifanc ond roedd y tîm arolygu yn bryderus ynghylch gallu'r GCI i gynnal a datblygu gwaith gyda rhieni/gofalwyr.

Gwaith gyda phlant a phobl ifanc a ddedfrydwyd i'w cadw dan glo

- Lle'r oedd plant a phobl ifanc yn cael eu remandio neu'n cael eu dedfrydu i gyfnod mewn sefydliad diogel, anfonid gwybodaeth allweddol yn syth i'r sefydliad hwnnw. Roedd asesu plant a phobl ifanc a oedd wedi cael eu dedfrydu i'w cadw dan glo, a hefyd y cyfathrebu â'r sefydliadau diogel, yn dda'n gyffredinol.
- Roedd problemau'n codi gyda phlant neu bobl ifanc a oedd â'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt, oherwydd nad oedd y sefydliad a oedd yn eu derbyn yn sylweddoli bod gan y plant neu'r bobl ifanc hynny anghenion ieithyddol a diwylliannol penodol.
- Byddai rheolwyr achos yn ymweld â'r sefydliad diogel ac yn cynorthwyo i hwyluso'r broses o roi'r cynllun hyfforddi ar waith ac i baratoi'r plentyn neu'r person ifanc ar gyfer ei ryddhau.
- Cynigiai'r GCI Raglen Oruchwylio ac Arolygu Dwys a oedd wedi'i theilwra'n arbennig ar gyfer plant a phobl ifanc unigol yn ystod cyfnod cymunedol eu dedfryd cadw dan glo.
- Ar y cyfan, gwireddwyd yr amcanion a gynlluniwyd ym mwyafrif yr achosion a arolygwyd, roedd yr ymddygiad wedi gwella a manteision amlwg i'r gymuned.

Dioddefwyr a chyfiawnder adferol

- Ar y cyfan, roedd dioddefwyr y cyfwelwyd â hwy a/neu a oedd wedi llenwi holiaduron yn gadarnhaol eu hagwedd at waith y GCI.
- Roedd amrywiaeth o ymyriadau cyfiawnder adferol ar gael gan y GCI a'r rhain yn cynnwys cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb, panelau troseddwyr ifanc, cynadleddau adferol ac amrywiol weithgareddau gwneud iawn yn y gymuned.

Rheoli ac arwain

- Roedd cyfansoddiad y Bwrdd Rheoli'n briodol, ac roedd wedi cynnig arweiniad a chyfeiriad effeithiol. Roedd Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid 2007/2008 yn dechrau dangos cynnydd o ran integreiddio gyda'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a'r Bartneriaeth

Plant a Phobl Ifanc, ond roedd angen gwneud rhagor i integreiddio'r ddwy bartneriaeth hyn a chynlluniau a strategaethau allweddol eraill.

- Roedd ystyriaethau ynglŷn ag amrywiaeth yn cael sylw ac roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 o ran Cynllun Iaith ond nid oedd y GCI wedi mynd i'r afael yn llawn â gofynion ieithyddol a diwylliannol penodol y plant a'r bobl ifanc yr oedd yn eu gwasanaethu.
- Roedd ysbryd y staff yn dda ac yn gadarnhaol gyda golwg ar y drefn reoli, ymarfer a'r cyfeiriad ar gyfer y dyfodol.

NODIADAU I OLYGYDDION

1. Arolygwyd Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd a Môn ym Mawrth/Ebrill 2008.
2. Cyfanswm poblogaeth Gwynedd a Môn oedd 183,672 yn ôl Cyfrifiad 2001. O'r boblogaeth hon, roedd 17% rhwng 0 - 17 oed adeg y cyfrifiad. Roedd y ffigur yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr, sef 10.4%.
3. Mae wyth Arolygiaeth yn cynnal Arolygiadau'r Timau Troseddwyr Ifainc. Y rhain yw Estyn (Arolygiaeth EM dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru), Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Comisiwn Gofal Iechyd, Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM, Arolygiaeth Carchardai EM, Arolygiaeth Prawf EM, Swyddfa Safonau mewn Addysg (Ofsted) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.
4. Dechreuodd y rhaglen Arolygu Timau Troseddwyr Ifainc ym mis Mehefin 2003. Arolygir pob un o'r 157 TTI yng Nghymru a Lloegr dros gylch pum mlynedd.
5. Cynhelir yr arolygiad yn unol ag ymrwymiad y Llywodraeth i arolygiad cymesur a chydgysylltiedig mewn llywodraeth leol, wedi'i lywio gan ganlyniadau'r Asesiad Perfformiad Cynhwysfawr a Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. Felly, mae rhaglen wedi'i datblygu sydd:
   - yn gymesur â'r risg ac sy'n arolygu dim ond y meysydd gwaith hynny lle mae tîm yn perfformio'n dda er mwyn lledaenu arferion da
   - yn ategu, ac sy'n cael ei chydlynu â rhaglenni arolygu eraill, yn bennaf y Cyd-arolygiadau Ardal o wasanaethau plant (dan arweiniad Ofsted) a'r Asesiad Corfforaethol (dan arweiniad y Comisiwn Archwilio).
   - yn cymryd datblygiad diweddar TTIau fel sefydliadau i ystyriaeth.
6. Mae safonau a meini prawf cynhwysfawr wedi cael eu datblygu ar gyfer pedwerydd cam yr arolygiad, gan ganolbwyntio ar y canlynol:
   - Gwaith yn y llysoedd
   - plant a phobl ifanc yn y gymuned (y rheini sy'n wynebu risg o droseddu a'r rheini sydd wedi troseddu)
   - plant a phobl ifanc a ddedfrydwyd i'w cadw dan glo
   - dioddefwyr a chyfiawnder adferol
   - rheolaeth ar y TTI a threfniadau partneriaeth.